

Gwasanaethau Addysg Conwy

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Cynllun Drafft



Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Conwy 2017-2020

1. Dyma yw gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y dair mlynedd nesaf.

Gweledigaeth:

- Mae Cyngor Sir Conwy wedi ymrwymo i ddyheadau Llywodraeth Cymru i gynyddu yn barhaus y niferoedd a'r canrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Annog balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Conwy a Chymru.
- Rydym yn sicrhau bod cyfle i dderbyn addysg Cyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn sy'n dymuno hynny. Lle bo'r plant yn hwyrddyfodiad i addysg Cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd cyfle i fynychu Canolfan Iaith i'w cefnogi i ymdoddi i'w hysgol a'u cymuned.
- Ymdrechwn i gefnogi dilyniant ieithyddol cadarnhaol yn y Gymraeg ac ar draws y cwricwlwm. Hyrwyddir y cysyniad o gontiniwm ieithyddol lle bo'r cyfle a chefnogaeth i godi o ddarpariaeth Cymraeg Ail-iaith i addysgu cyfran o'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg (20%) ac ymlaen i 20%+ ble addysgir addasiad priodol o'r cwricwlwm Cymraeg. Darperir cyfleon i ddefnyddio sgiliau iaith yn gymunedol a chymdeithasol y tu hwnt i'r ystafelloedd dosbarth.
- Mae cabinet Conwy yn gefnogol i Strategaeth Gymraeg y Sir ac yn weithredol yn ei hybu.

Nod:

- Mae Gwasanaethau Addysg Sir Conwy yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni a defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.
- Creu strategaeth bendant fydd yn gosod sylfeini cadarn yn y Gymraeg ar draws y continiwm addysg er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol y disgybl beth bynnag eu cefndir ieithyddol i ddatblygu eu gfael ar y Gymraeg. Yn y cyddestun hwn, bydd y pwyslais a roddir ar y ddwy iaith ar wahanol adegau yn natblygiad disgybl yn gwahaniaethu yn ôl cefndir ieithyddol y disgybl a'r ardal a wasanaethir.
- Sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae Strategaeth Iaith Sir Conwy yn cefnogi polisi iaith y cyngor ac maent wedi ymrwymo i ddyheadau Llywodraeth Cymru i gynyddu yn barhaus y niferoedd a'r canrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, er mwyn

cyfrannu tuag at targed Llywodraeth Cymru o 'Filiwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050.

Amcanion:

Er mwyn sicrhau llwyddiant y Strategaeth disgwylir gyflawni y dilynol:

- Ail edrych ar bolisi iaith y Sir gan bennu amser penodol i ysgolion symud ymlaen categori.
- Annog Llywodraethwyr i benodi staff cymwys i addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a pholisi iaith Conwy.
- Nodi bod angen cyfeirio at 'hanfodol' o safbwynt y Gymraeg ymhob hysbyseb ysgol. (Dymunol mewn ail hysbyseb)
- Sicrhau cyfleoedd i uwch sgilio holl staff ysgol, cyn ysgol a gofal trwy fynychu hyfforddiant iaith a methodoleg. Disgwylir i Lywodraethwyr a Thîm Rheoli'r ysgol hybu a chefnogi staff i fynychu hyfforddiant pellach a drefnir gan Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg ynghyd â Chynllun Sabothol Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor, ac i staff cyn ysgol a gofal ddilyn cyfarwyddyd a chynlluniau Mudiad Meithrin/ Awdurdod Addysg.
- Bod holl sefydliadau Addysg y Sir yn gweithredu'r Polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd, a'u bod yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r diwylliant Cymreig, o fanteision dwyieithrwydd, a thrwy hynny eu galluogi i fod yn rhan llawn o'u cynefin dwyieithog.
- Yn dilyn arolwg mesur y galw am Addysg Gymraeg ar draws Conwy mae'r Sir wedi ymrwymo i gynyddu/ addasu'r ddarpariaeth yn flynyddol.
- Sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog gan barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion beth bynnag eu cefndir ieithyddol.
- Darparu cefnogaeth gadarn yn y sefydliadau cyn ysgol er mwyn hyrwyddo datblygiad cynnar cadarn yn y Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith)
- Yn y Cyfnod Sylfaen, adeiladu ar brofiadau blaenorol cadarn y cyfnod cyn ysgol, gan sicrhau datblygu ymhellach eu dealltwriaeth a'u gallu o'r Gymraeg a'u mamiaith. (Gymraeg yn unig yn yr ysgolion iaith Gyntaf hyd nes tymor olaf yn yr adran Cyfnod Sylfaen). Asesir disgyblion CS ysgolion Categori 1 yn y Gymraeg.
- CA2- parhau i adeiladu ar sgiliau blaenorol y disgyblion yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Asesir sgiliau'r disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.
- Sicrhau darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrdyfyddiad CA2 ysgolion, Categori 1 yn bennaf, yng Nghanolfan Iaith y Sir. Cant fynychu Canolfan Iaith Conwy (Dolgarrog) am dymor, mor fuan a phosibl ar ol iddynt ddod i'r Sir ac fe cefnogir hwy gan AYYG hyd nes bod lle yn y ganolfan. Bydd y gefnogaeth yma yn greiddiol i sicrhau bo'r disgyblion yn meddu ar y sgiliau i'w galluogi i fynychu addysg Gynradd/ Uwchradd trwy'r Gymraeg ac i ymdoddi i gymdeithas ddwyieithog. Hyfforddir hyd at 12 disgybl, 7-11 oed, pob tymor, a cyflwynir cwricwlwm cyflawn trwy y Gymraeg, sydd wedi ei selio ar gynllun strwythuriedig 'Cynllun y Llan'. Mae'r cwrs wedi ei strwythuro'n ofalus er mwyn hyrwyddo rhuglder ar lafar yn ogystal â meithrin sgiliau darllen ac ysgrifennu fel y gallent ymdoddi'n rhwydd yn ôl yn eu hysgolion. Mae cyfle hefyd i ddisgyblion sydd angen gloywi eu hiaith, fynychu. Darperir ol ofalaeth ar gyfer y disgyblion hyn wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion. Ar hyn o bryd,

nid oes canolfan ar gyfer hwyrdyfodiaid Uwchradd, fodd bynnag darperir cefnogaeth addas ar eu cyfer gan eu hysgolion.

- Lledaenu Siarter Iaith y Sir i'r ysgolion categori 4 2016 -2020 a pharhau i dargedu ysgolion categori 5 fel eu bod hwythau maes o law yn barod i weithrdu'r Siarter Iaith 2018 -2020. Cyflwyno'r Siarter i'r Cyfnod Sylfaen yn ogystal a'r Adran Iau.
- Hyrwyddo cynllun 'cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc' yn ysgolion Uwchradd y Sir gan flaenoriaethu defnyddio iaith anffurfiol o fewn y gyfundrefn addysgol, paratoi cyfleoedd i gynyddu'r Gymraeg y tu allan i'r gyfundrefn addysgol, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg. Hyrwyddo ymhellach Cynllun Prosiect PCAI – ar gyfer Ysgol Dyffryn Conwy ac Ysgol y Creuddyn – sef cynllun sydd yn hyrwyddo y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth eangach ar fforwm y Gymraeg- i gynnwys cynrychiolaeth o leuenctid/ Llywodraethwyr y Sir a sicrhau nad oes 'lleoedd gwag'.
- Yn CA3, ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg ac wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau ar drywydd Cymraeg iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad ar y continiwm iaith.
- Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn parhau i astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 er mwyn ennill cymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.
- Yn yr ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg (Dyffryn Conwy a'r Creuddyn) sicrhau fod CA3 a CA4, yn cael y ddarpariaeth ar gefnogaeth briodol sy'n caniatáu i bob disgybl astudio yr holl/rhai o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mai ein gweledigaeth fel Sir yw cynyddu y niferoedd sy'n dilyn addysg cyfrwng Cymraeg rydym hefyd yn ymwybodol fod rhaid hyrwyddo cyfleoedd o fewn holl ysgolion y Sir. Hyrwyddo hefyd y cyfleoedd i ehangu y defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r wers Gymraeg ac ym mhywyd bob dydd ysgolion y Sir.
- Paratoi cynllun gweithredu a fydd yn adlewyrchu disgwyliadau'r strategaeth gan osod nodau clir/ cyfrifoldebau/ amser/ targedau/ canlyniadau o safbwynt y Gymraeg fel iaith ac fel cyfrwng. Y prif ffocws fydd datblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion o'r adran cyn-ysgol hyd at CA4 a thu hwnt; targedu ysgolion sy'n tangyflawni, trwy ein partneriaeth gyda GwE (targedu disgyblion/ staff).
- Bydd Cynllun Cymraeg i blant Mudiad Meithrin ynghyd a hyrwyddo cynllun Croesi'r Bont (Mudiad Meithrin) a cynllun Clebran a Cymraeg i Blant, yn cefnogi'r strategaeth trwy rannu gwybodaeth a chynnig cyngor i rieni a darpar rieni ar fanteision dwyieithrydd a gofal ac addysg Cymraeg.
- Bydd y Cynllun gweithredu a'r strategaeth yn cael eu monitro gan Fforwm y Gymraeg y Sir ac adroddir ar y cynnydd gan aelodau'r fforwm i'r Pwyllgor Craffu Sirol.

Mae y strategaeth hwn hefyd yn adlewyrchu polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru:

- Strategaeth drafft 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' – trwy gynlluniau megis Siarter iaith y Sir, cefnogi cynllun Sabothol y Sir.
- Ailysgrifennu'r dyfodol – bydd y Sir yn hyrwyddo lleihau y bwch rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol trwy gynlluniau bwriadus a fydd yn galluogi

ein disgyblion I gael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac yna i fyd diwydiant a gwaith yn y dyfodol.

- Dyfodol llwyddiannus; - Parhau i weithredu a datblygu argymhellion yr Athro Donaldson gan roi ffocws ychwanegol i hyrwyddo 'r Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Cenedlaethau'r dyfodol:

Bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo a chefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni gofynion 'Cenedlaethau'r Dyfodol'

O gyflawni nodau'r strategaeth yma, hyderwn y bydd datblygiad cadarnhaol nid yn unig i addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg y Sir, ond hefyd i addysg gyflawn disgyblion Sir Conwy.

2. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma yw ein datganiad ynghylch hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

- Mae Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn ymrwmo'r Cyngor i ddarparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol sy'n cyfarfod y meini prawf pellter statudol i'r ysgol cyfrwng y Gymraeg agosaf (h.y. Ysgolion yng nghategori 1 neu 2).
- Bydd disgyblion sydd yn mynychu'r Ganolfan Iaith yn derbyn cludiant cartref i'r ysgol am ddim os ydynt yn cyfarfod y meini prawf pellter statudol.
- Os yw'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg agosaf y tu allan i Sir Conwy, yna bydd y Sir yn dilyn yr un polisi ac yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol Gymraeg agosaf, os ydynt yn cyfarfod y meini prawf pellter statudol. Fodd bynnag bydd rhaid o bosibl, ail ystyried polisi cludiant y Sir o safbwynt cludo plant ar draws y ffin, oherwydd y colliant i ysgolion Cymraeg Conwy.
- Mae gan Sir Conwy ddyletswydd i gydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fo rhif derbyn ysgol wedi'i gyrraedd.

Rhestr o ysgolion y Sir wedi eu categorio.

Ysgolion Cynradd Categori 1 (Ysgolion dynodedig/naturiol Gymraeg):

Ysgolion Dynodedig

- Bod Alaw
- Glan Morfa
- Morfa Rhianedd

Ysgolion naturiol Gymraeg

- Betws y coed
- Betws yn rhos
- Bro Aled
- Bro Cernyw
- Bro Gwydir
- Capel garmon
- Cerrigydrudion
- Dolgarrog

- Dolwyddelan
- Eglwysbach
- Llanddoged
- Llangelynnin
- Llanefydd
- Penmachno
- Pentrefoelas
- Tal y Bont
- Ysbyty Ifan

Ysgol Trosiannol

- Ysgol Pencae

Ysgol dwy ffrwd

- Awel y Mynydd

Ysgolion Uwchradd:

Dynodedig

- Creuddyn

Dwyieithog

- Dyffryn Conwy

3.

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
287/ 1183	273/1143	282/1104	Dim gwybodaeth cyflawn hyd yn hyn (Stats Medi 2016)
24.2%	25%	25.5%	26%

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn

- Ehangu capasiti dros dro yn ysgol Glan Morfa, Abergele i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Sicrhau bod cynlluniau pellach ar gyfer addysg Gynradd yn ardal Abergele wedi eu cynnwys o fewn Band B o Strategaeth Foderneiddio Ysgolion Cynradd yr Awdurdod 2019-

2014. Yn ardal Cyffordd Llandudno, mae uno un ysgol categori 4 gydag ysgol dwy ffrwd i greu un ysgol dwy ffrwd newydd wedi rhoi mwy o gyfle i blant yr ardal dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cynnal cyfrifiad mesur y galw am addysg Cyfrwng Cymraeg/ gofal plant Gwanwyn 2017, ac ymateb i'r canlyniadau.
- Cefnogi lleoliadau nas cynhelir i hyrwyddo'r Gymraeg a chydweithio gyda Cynllun Cymraeg i Blant lle bo'r cyfle yn codi. Cynllun Croesi'r Bont yn cael ei fabwysiadu 2016-2017 er mwyn uwch sgilio staff cyn ysgol a thrwy hynny ddatblygu ymwybyddiaeth a hyder Rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. 2016-2017- targedu Cylchoedd Dolgarrog/ Awel y Mynydd/Morfa Rhiannedd/Pencae/ Llanrwst/ Llangelynnin. Defnyddio cynllun Clebran i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y blynyddoedd Cynnar Hefyd bydd y tim athrawon ymgynghorol blynyddoedd cynnar nas cynhelir yn cefnogi lleoliadau nas gynhelir sydd yn cael eu hariannu, i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Holl ysgolion y Sir yn dilyn cynllun Cerrig Llamu - Cynllun datblygu sgiliau llafaredd yn yr iaith gyntaf a'r Ail iaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a phontio i B13. Targedu yn bennaf ysgolion categori 4/5.

Datganiad cefnogol

Mae 55 Ysgol Gynradd, 7 Ysgol Uwchradd ac 1 Ysgol Arbennig yng Nghonwy.

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod continiwm ieithyddol mewn lle a fydd yn cefnogi y datblygiad hwn.

Oherwydd natur ieithyddol y Sir, diffinir ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol: Categori :

- 1 Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg (WM)
- 2 Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd (DS)
- 3 Ysgol Gynradd Drawsnewidiol – cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o Saesneg (TR)
- 4 Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol Gymraeg (EW)
- 5 Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf (EM)

- Ysgol Glan Morfa: Ar gyfer Abergele, mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu a rhagwelir y bydd hyn yn parhau wrth i ragor o dai gael eu hadeliadu yn yr ardal. (800) Mae cynlluniau byr dymor ar y gweill ar gyfer cwrdd a'r galw presenol yn Ysgol Glan Morfa. Bydd cynllun strategol ar gyfer holl addysg gynradd yr ardal yn cael ei weithredu o 2019 i 2024 o dan gynllun Ysgolion y 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yr Awdurdod. Bydd y strategaeth yn ystyried y galw am addysg gyfrwng Gymraeg drwy'r Sir. Ysgol Awel y Mynydd- ysgol dwy ffrwd, gyda'r dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cael eu trochi yn y Gymraeg. Bydd cynnig wedyn i'r holl ddisgyblion gael mynediad i addysg Gymraeg ym M1 1-B16.
- Yn 2013/14, cynhaliwyd arolwg y cyfrifiad o'r galw am addysg Gymraeg ar draws Conwy. Comisiynwyd Cwmni Opinion Research Services (ORS) i wneud y gwaith. Prif ffocws yr ymchwiliad oedd dau gohort o blant sef y rhai a

anwyd rhwng Medi 2011 ac Awst 2012, a rhai a anwyd rhwng Medi 2012 ac Awst 2013 fydd yn dechrau addysg llawn amser ym Medi 2016 a Medi 2017.

- Dengys y cyfrifiad bod rhieni rhwng 25 a 34 oed yn fwy tebygol o ddewis addysg cyfrwng Cymraeg na'r rhieni hŷn. Roedd 70% o'r rhieni rhwng 25 a 34 oed yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu a 44% o'r rhai 45 oed a throsodd.
- Yn sgil hyn, agorwyd Meithrinfa Derwen deg yng Nghyffordd Llandudno ac agorwyd Awel y Mynydd fel ysgol dwy ffrwd gan sicrhau mynediad addysg cyfrwng Cymraeg i gyn ddisgyblion Nant y coed (Categori 4). Golyga hyn bo darpariaeth ychwanegol ar gael yn bresennol ar gyfer ateb y galw am Addysg Gymraeg yn yr ardal. Yn Ysgol Pencae, Penmaenmawr- mae blwyddyn ychwanegol o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig yno eleni sy'n golygu y bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn dilyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn Medi 2018. Bydd mesur y galw 2017 yn hysbysu'r Sir o'r angen am addysg Gymraeg a byddwn yn ymateb i'r galw drwy addasu cynlluniau Sirol. Rhoddir ystyriaeth dwys hefyd (o ran datblygu'r Gymraeg o fewn y Sir,) i flaenoriaethau polisiau'r Llywodraeth megis Ailysgrifennu'r Dyfodol/ Dyfodol llwyddiannus / cenedlaethau'r Dyfodol/ Miliwn o Siaradwyr, pan yn cynllunio ysgolion newydd/ uno ysgolion/ gweithredu rhaglen ysgolion 21 ain ganrif. Mae'r fframwaith statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor i gynnal asesiad ardrawiad ieithyddol yn yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio. Mae'r asesiad yn amlinellu'r sefyllfa ynglŷn â'r prif ystyriaethau iaith sy'n ymwneud ag effeithiau'r opsiynau dan sylw yn yr ardal benodol. Wrth ad-drefnu ysgolion mewn ardaloedd ble mae'r iaith Gymraeg yn dal ei thir, mae sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol o fewn yr ardaloedd hynny yn fodd o gyfrannu tuag at sefydlogi a chadarnhau sefyllfa'r iaith.
- Mae'r Sir yn sicrhau lle i bob plentyn o'r oed priodol, i fynychu addysg Cyn ysgol. Sicrheir Sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Cylchoedd Meithrin er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg cyn gynted a phosibl. Cefnogir lleoliadau di Gymraeg i'w cynorthwyo i ateb yr angen, gan swyddogion tim cyn ysgol y Sir a chynllun Clebran Mudiad Meithrin. Mae Swyddog gweithredu wedi ei hapwyntio yng Nghonwy, a fydd yn cyd weithio â'r Tim Cyn Ysgol/ Mudiad Meithrin/ Fforwm y Sir, er mwyn sicrhau llwyddiant i'r cynllun Croesi'r Bont sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafar yn y Gymraeg yn y Cylchoedd cyn ysgol hyn. Mae'r cynllun hefyd yn fodd i bontio yn ieithyddol rhwng cylchoedd Mudiad Meithrin a dosbarthiadau meithrin o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae cynllun Clebran yn darparu hyfforddiant unwaith bob tymor i gyflwyno'r Gymraeg i ddarpariaethau cyn ysgol sy'n cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith . I gefnogi hyn mae tudalen Facebook ar gael i sicrhau hwb o ddeunyddiau penodol at ddefnydd darpariaethau cyn ysgol a chyfle i drafod a chyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg o fewn ein darpariaethau.
- Fe gynhyrchir pamffled gan is grwp fforwm y Gymraeg 'Manteision Addysg cyfrwng Cymraeg' ar gyfer Rhieni, yn ogystal ac ymgyrch farchnata Sirol (Cydweithrediad Sirol/ Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant). Hyderwn y bydd gosod sylfeini cadarn yn y Gymraeg nid yn unig yn datblygu gallu a hyder y disgyblion yn y Gymraeg cyn gynted a phosibl, ond hefyd yn dylanwadu yn gadarnhaol ar ddewisiadau'r rhieni. Gweithredu cynllun '#cychwyn gorau Mudiad Meithrin' i gynyddu ac annog dilyniant o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i ddosbarthiadau meithrin/derbyn cyfrwng Cymraeg.

- Byddwn yn cydweithio gyda 'Cynllun Llywodraeth Cymru -Cymraeg i Blant' a fydd yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, darpar rieni a'u teuluoedd ar fuddion addysg/gofal Cymraeg a chyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'w plant.
- Mae tim blynyddoedd Cynnar y Sir yn sicrhau bo'r lleoliadau nas cynhelir yn dilyn anghenion y cwricwlwm priodol a disgwyliaid polisi iaith y Sir. Asesir man cychwyn ieithyddol y disgyblion yn y lleoliadau er mwyn paratoi yn briodol ar gyfer eu hanghenion a'u datblygiad ac fe asesir eu cynnydd yn rheolaidd.
- Sicrhau mewnbwn cynlluniau megis Dechrau'n Deg er hyrwyddo'r Gymraeg ar draws eu gwasanaethau.
- Cyflwynir y Gymraeg cyn gynted a phosibl yn holl ysgolion y Sir er mwyn sicrhau datblygu ymhellach y Sylfaen gadarn ieithyddol a osodwyd yn flaenorol. I gefnogi y gwaith da yma, 'rydym ar hyn o bryd yn cynllunio Cynllun trochi llafar 'Cerrig Llamu', sydd yn cynnig arweiniad i ysgolion ar sut i symud y disgyblion ar hyd y continiwm ieithyddol a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Peilota gydag ysgolion Categori 1 a 2, er mwyn codi safonau a hybu sgiliau iaith cynnar. (Peilot Ysgol Glan Morfa 2016-2018 ac yna gweddill ysgolion categori 1 2017 ac ymlaen) Targedir ysgolion penodol yn ol yr angen. Targedir y disgyblion hyn wedyn i drosglwyddo i ffrwd Gymraeg. Er mwyn sicrhau y llwyddiant yma, cefnogir yr ysgol gan dîm yr Athrawon Ymgynghorol sydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r defnydd o'r cynllun 'Cyfathrebu yn Gyntaf' ac a fydd yn hyfforddi'r staff. Cynllun ydyw sydd yn canolbwyntio ar sgiliau llafar disgyblion ac sy'n enghreifftio gweithgareddau priodol i ateb y datganiadau blynyddol yn Fframwaith Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Rheadrir y cynllun wedyn i ysgolion categori 4 a 5 y Sir.
- Asesir cynnydd ieithyddol y disgyblion ar ddechrau eu mynediad i Addysg ac yn unol a pholisi asesu yr ysgolion. Adroddir y cynnydd i'r Rhieni ar ddiwedd bob blwyddyn addysgol.
Bydd Ysgolion categori 1 y Sir fel arfer yn cyflwyno'r Saesneg yn ystod tymor olaf y Disgyblion ym M12. Fe'l hasesir yn unol a gofynion y Cyfnod Sylfaen, yn y Gymraeg.
Anogir pob ysgol i hyrwyddo'r rhieni, o bwysigrwydd a manteision dwyieithrwydd a'u cefnogi i gyd ddysgu'r iaith gyda'u plant. (e.e. paratoi sesiynnau dysgu'r Gymraeg/ rhannu gwybodaeth/ cyfeirio at gyrsiau 'popeth Cymraeg/Cymraeg i oedolion/ paratoi llyfrynnau syml i gefnogi gwaith cartref y plant).

Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Ein sefyllfa bresennol a thargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn Gymraeg (laith Gyntaf)

Sefyllfa gyfredol*	2017/2018	2018/2019	2019/2020
227/1069	231/1074	244/1105	257/1109
21.2%	21.5%	22.1%	23.2%

Dim ond 86 sydd ym mlwyddyn 9 YDC bellach – 10 yn dilyn ail-iaith.
Blwyddyn 8 – 104 (8 yn dilyn ail iaith) – Targedau Canlyniadau Haf 2018 (96)
Blwyddyn 7 – 117 (17 yn dilyn ail iaith) – Targedau Canlyniadau Haf 2019 (100)
Dim ond 105 sydd yn y dalgylch ar gyfer pontio Medi 2017. Ar hyn o bryd rhagwelwn mai 90 fydd yn trosglwyddo (Byddwn yn colli hanner disgyblion Cerrigydrudion gan y byddent yn trosglwyddo i ysgol Brynhyfryd Sir Ddinbych. Bydd angen ail edrych ar gynllun trochi CA2 a polisi cludiant ysgolion sy'n bwydo ysgolion Dyffryn Conwy er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd fel bo mwy o ddisgyblion yn pontio i'r Cyfrwng Cymraeg.

Dyma'r prif amcanion i gyflawni'r deilliant hwn:

- Codi safonau yn yr ysgolion categori 4 er mwyn galluogi'r disgyblion i fynychu Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Cydweithio rhwng yr ALI, ysgolion ac asiantaethau allanol i rymuso cynllun trochi traws-sirol er mwyn cynyddu'r nifer o ddysgwyr 'ail-iaith' sy'n trosglwyddo o'r Cynradd i Ysgolion Uwchradd Gymraeg iaith cyntaf/Dwyieithog (Categori 1 a 2). Tim Ymgynghorol y Gymraeg i weithio gyda Ysgolion Uwchradd ar brosiect gwaith cartref.
- Llunio cynllun cefnogi er mwyn darbwylllo rhieni o fanteision a buddiannau addysg Gymraeg i'w plant ac yn amlygu'r cyfleoedd o dderbyn eu haddysg Uwchradd drwy'r Gymraeg.
- Datblygu safonau sgiliau ieithyddol plant mewn lleoliadau nas cynhelir er mwyn sicrhau eu bod yn trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg.

Datganiad cefnogol:

- Sicrhau bod pob ysgol yn dilyn polisi iaith y Sir, bo strategaethau ar gyfer dilyniant ieithyddol yn eu lle o un Cyfnod allweddol i'r llall, a bo Llywodraethwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd y Polisi Iaith a Strategaeth y Gymraeg fel eu bod yn cefnogi gwaith yr ysgolion ac yn eu hyrwyddo i symud ar hyd y continiwm ieithyddol. (Trefnu hyfforddiant priodol ar eu cyfer a datblygu ymhellach eu hatebolrwydd i weithrediad a llwyddiant y polisi- GWE yn monitro). Targedu holl ysgolion categori 4 trwy hyfforddi / herio staff ar sut i

godi safonau yn y Cyfnod Sylfaen (Deilliant 4-6) ac yn CA2 (Lefel 3-5) i adfer hyder disgyblion a rhieni i symud i fyny y continiwwm i addysg cyfrwng Cymraeg. Defnyddio cynlluniau megis Aled Afal/ Cynllun datblygu llafaredd er mwyn codi safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2. Sicrhau mewnbnw dwys yn y Cyfnod Sylfaen ac adeiladu ar y gwaith hwn yn yr adran Iau. Mabwysiadu y Siarter Iaith yn yr Ysgolion category 4 yn y Cyfnod Sylfaen ac yn yr adran Iau. Gwelir bo cynnydd yn y canran o ddisgyblion sydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg tros y 4 mlynedd nesaf ac mai cadarnhaol yw'r gwahaniaeth rhwng y rhai a aseswyd yn y Gymraeg ym MI6 eleni (22.1%) a BI9 (20.1%). Mae y cynnydd yma yn cefnogi gwaith da yr ysgolion yn eu hymdrechion I gefnogi datblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, rhaid parhau i dargedu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau na fydd colliant yn y cohort yma tros y blynyddoedd nesaf, enwedig gan fod niferoedd is yn CA3 a CA4 presenol yn enwedig o ystyried demograffeg y Sir. Bydd angen edrych am system 'tracio' Cynradd i'r Uwchradd, o safbwynt y disgyblion sydd yn derbyn addysg Gymraeg tu allan ac o fewn y Sir.

- Mae'n allweddol bod proses mapio patrymau ieithyddol ardaloedd/ ysgolion cynradd er mwyn adnabod ardaloedd i'w targedu ar gyfer darpariaeth ychwnageol. Byddai cynnwys ffocws ar y patrymau iaith mewn meithrinfeydd yn gymorth yma.
- Mae angen ymdrech mawr i werthu buddiannau addysg Gymraeg i rieni disgyblion er mwyn eu darbwyllo o'r cyfleoedd amlwg sydd yna.
- Mae angen bod trafodaethau gyda GWE ac Estyn am gefnogi'r broses o ail-gategereiddio er mwyn mynd llaw yn llaw gydag adolygu polisi iaith er mwyn 'pennu amser penodol i ysgolion symud ymlaen categori'.
- Mae'n allweddol bod unrhyw gyfleoedd i ddarparu'r Gymraeg yn rhai o safon uchel a bod gwir ymrwymiad yn yr ysgolion hynny i gefnogi'r datblygiad.
- Mae polisi trafndiaeth y Sir sy'n caniatáu i ddisgyblion deithio i'r 'Ysgol Gymraeg agosaf' yn sicrhau anfantais sylweddol i Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy wrth ystyried y niferoedd sy'n teithio y thu allan i Gonwy am addysg. O bosibl bydd rhaid ail edrych ar bolisi cludiant y Sir o safbwynt cludo plant ar draws y ffin.
- Ffurio a gweithredu broses mapio blynyddol sy'n adnabod patrymau iaith ardaloedd/ ysgolion cynradd/ meithrinfeydd er mwyn adnabod ardaloedd lle gellir targedu adnoddau cefnogol.
- Gweithredu er mwyn sicrhau bod pob disgybl Cymraeg iaith Gyntaf Conwy yn parhau i dderbyn mwyafrif o'u haddysg drwy'r Gymraeg yn yr Uwchradd.
- Mae cynnydd da wedi bod yn y rhai a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd CA3:13/14-17%, 14/15- 19.4%, 15/16-20.1%. Mae hyn yn gynydd o 3.1%. Byddwn yn parhau i gydweithio a'r ysgolion Uwchradd (Dynodedig a dwyieithog) er mwyn cynyddu yr canranau hyn yn ogystal a pharhau i dargedu gwaith yr ysgolion Cynradd. Targedir a rhoddir cefnogaeth ychwanegol i dair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sydd yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg iaith gyntaf CA3, er mwyn galluogi mwy o ddisgyblion i ennill cymhwyster TGAU Cymraeg iaith gyntaf.
- Mae Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg y Sir yn cydweithio a'r ysgolion Cynradd ag Uwchradd er mwyn sicrhau dilyniant o un CA i'r llall ac yn cefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg o fewn yr ysgolion. Byddant hefyd yn cynnal hyfforddiant er mwyn uwch sgilio staff fel bo'r disgyblion yn cael eu

targeddu yn effeithiol er mwyn codi safonau. Mae'r ymweliadau yn digwydd yn rheolaidd ond o bryd i'w gilydd bydd targedu dwys yn digwydd yn ol y galw.

- Bwriedir i ymgorffori ethos y Siarter Iaith yn yr ysgolion uwchradd ar draws y Sir fel bod dilyniant o waith y Cyfnod Sylfaen/ CA2 , er mwyn parhau i gynyddu y defnydd o'r iaith tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cydweithio gydag asiantaethau eraill megis Menter Iaith a'r Urdd. Bydd cefnogaeth gan y Sir ar gael i'r ysgolion er mwyn paratoi eu rhaglenni gweithredu.
- Cyfrifoldeb yr ysgolion fydd tracio cynnydd disgyblion unigol, fodd bynnag bydd yr AALI a GWE yn monitro y cynnydd ac yn darparu ymyrraeth yn ol yr angen.
- Mae polisi iaith y Sir yn cydnabod gosod sylfeini cadarn yn y Gymraeg cyn gynted ac y bo modd yn natblygiad y plentyn ac er mwyn hyrwyddo hyn, cefnogir lleoliadau nas cynhelir i hyrwyddo'r Gymraeg trwy ddefnydd o'r Cynllun Croesi'r Bont. Cynllun ydyw sydd yn datblygu sgiliau'r disgyblion trwy ymarfer sgiliau a phatrymau llafar yn eu chwarae ac yn eu gwaith. Pwysleisir ar yr ymarferol, ar storiau a chaneuon, ac ar ddatblygu iaith naturiol bob dydd yn ogystal a chywirdeb cystrawen. Hyderir y bydd gweld y plant ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, yn arwain rhieni i ystyried eu hanfon i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac/neu yn magu ynddynt yr hyder a'r awydd i hyrwyddo datblygiad Cymraeg eu plentyn i'r dyfodol. Bydd strwythr y cynllun yn gosod strategaeth a fydd yn bwydo i mewn i fframwaith y Cyfnod Sylfaen gan sicrhau dilyniant. Yn y lleoliadau lle na fydd y cynllun yma ar waith yn gychwynnol, bydd swyddogion Sirol yn cefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg yn ystod eu hymweliadau cefnogi/ monitro.
- Bydd Cynllun Clebran o fewn amser yn hyrwyddo gwell defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliadau cyfrwng Saesneg a bydd hyn yn paratoi y disgyblion ar gyfer continiwm ieithyddol o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<p><u>Dyffryn Conwy</u> 105 – mamiaith 98 – yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf ag o leiaf 2 cymhwyster arall yn y Gymraeg. (7 wedi newid i'r Famiaith ond heb newid cyfrwng yn CA3 – CA4). (Bl. 11 cyfredol)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u> 99 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn laith Gyntaf.</p>	<p><u>Dyffryn Conwy</u> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 90/100 yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf. 83 yn Cymraeg laith Gyntaf + 2 TGAU+ yn y Gymraeg. (7 wedi pontio mamiaith yn CA3-4 ond heb newid cyfrwng. (Bl 10 cyfredol.)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u> 105 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf</p>	<p><u>Dyffryn Conwy</u> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 76/86 yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf. Rhagwelwn y byddent i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. (Bl 9 Cyfredol)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u> 90 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf</p>	<p><u>Dyffryn Conwy</u> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 91/104 yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf. Rhagwelwn y byddent i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. (Blwyddyn 8Cyfredol)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u> 88 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf</p>

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg

Sefyllfa gyfredol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<p><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u> 105 – laith Gyntaf 98 – yn dilyn Cymraeg laith Gyntaf ac o leiaf 2 cymhwyster</p>	<p><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.</p>	<p><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.</p>	<p><u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u> Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.</p>

<p>arall yn y Gymraeg. (7 wedi newid i mamiaith ond heb newid cyfrwng yn CA3 – CA4). (Bl. 11 cyfredol)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></p> <p>99 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith Gyntaf.</p>	<p>Mae 90/100 yn yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf, 83 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf + 2 TGAU+ yn y Gymraeg. (7 wedi pontio mamiaith yn CA3-4 ond ddim wedi newid cyfrwng. (Bl 10 cyfredol.)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></p> <p>105 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf</p>	<p>Mae 76/86 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. (Bl 9 Cyfredol)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></p> <p>90 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf</p>	<p>91/104 yn dilyn Cymraeg iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. (Blwyddyn 8 Cyfredol)</p> <p><u>Ysgol Y Creuddyn:</u></p> <p>88 yn y flwyddyn-pob un yn dilyn iaith gyntaf</p>
---	---	--	---

Amcanion

- Ceisio cynyddu'r ganran o ddysgwyr Bl 11 sy'n astudio 5 pwnc drwy'r Gymraeg erbyn 2020. Fodd bynnag bydd hyn yn ddibynnol ar nifer y cohort erbyn hynny.
- Hyrwyddo cynllun 'cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc' yn ysgolion uwchradd y Sir, mewn cydweithrediad gyda Chynghorau Ysgol, Urdd/ Menter iaith, gan flaenoriaethu defnyddio iaith anffurfiol o fewn y gyfundrefn addysgol, paratoi cyfleoedd i gynyddu'r Gymraeg y tu allan i'r gyfundrefn addysgol, codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg.
- Gweithredu fel bod y Gwyddorau Sengl yn cael eu addysgu drwy'r Cymraeg yng Nghonwy.
- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Genedlaethol er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd i bobl ifanc allu parhau i ddilyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol. Cydweithio gyda'r Partneriaeth 14-19 er mwyn mapio'r angen am gyrsiau ol-16 drwy'r Gymraeg, a darparu yn ol yr angen.

Datganiad cefnogol

- Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymateb i ofynion y polisi iaith.
- Parhau gyda chynllun trochi Ysgol y Creuddyn fel bo cyfle i ddisgyblion symud i Addysg Cyfrwng Cymraeg ym MI7.
- Oherwydd natur sefydlog niferoedd ysgolion Cymraeg/ Dwyieithog Conwy mae'r gallu i gynyddu'r niferoedd sy'n llwyddo i astudio 2-5 pwnc drwy'r Gymraeg yn heriol iawn yn y tymor byr. Fodd bynnag, hyderwn y bydd ail edrych ar gategoreiddio yr ysgolion yn y polisi iaith, a'r continiwm iaith newydd, yn dylanwadu yn ffafriol ar hyn yn y dyfodol.
- Mae cynllunio a datblygu cyrsiau newydd ar gyfer CA4 yn seiliedig ar angen ysgolion i weithio tuag at fesurau dangosyddion Llywodraeth Cymru hithau'n

hinsawdd cyllidol anodd iawn. O ganlyniad, mae rôl y Partneriaeth 14-19 yn allweddol.

- Mae Cyngorau Ysgol/ cynrhychiolwyr disgyblion yn allweddol yn yr ymgyrch i hyrwyddo mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Gwelir gwaith da yn y maes yma mewn rhai ysgolion o fewn y Sir yn barod.
- Nid yw'r gwyddorau sengl Safon Uwch/ Uwch Gyfrannol yn cael eu cynnig drwy'r Gymraeg yng Nghonwy ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ystyried a'i drafod yn y dyfodol agos.

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

laith gyntaf	Sefyllfa gyfredol		2017/2018		2018/2019		2019/2020	
Cyfnod Sylfaen D.5/ D6	D5	D6	D5	D6	D5	D6	D5	D6
	84.5	33.7	86%		88%		89%	
CA2 L4/L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5
	87.3	38.1	89%		90%		91%	
CA3 L5/L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6
	93.5	57.9	94.8	72.5	95	73	95.5	74
CA4 Graddau A*-C	79		83		85		87	

Ail iaith	Sefyllfa gyfredol		2017/2018		2018/2019		2019/2020	
CA2 L4/L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5	L4	L5
	75.7%	21.2%	76%	22%	76.5%	22.5%	77%	23%
CA3 L5/L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6	L5	L6
	82.3%	40.7%	83%	41%	83.5%	41.5%	84%	42%
	Cwrs Llawn		Cwrs Llawn		Cwrs Llawn		Cwrs Llawn	
CA4 Graddau A*-C	79.5%		80%		80.5%		81%	

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn (Gweler Atodiad 1 ar gyfer y data)

- Cynyddu % disgyblion Cymraeg laith gyntaf a Chymraeg Ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen a enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg a Chymraeg ail iaith;
- disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg a Chymraeg ail iaith;

disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg a Chymraeg ail iaith;
disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg a Chymraeg ail iaith.

- Sicrhau bod pob disgybl yn gadael gyda chymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith gan hyrwyddo Cynllun Trochi i hybu symudiad o un continiwm i'r llall.
- Cynnal ac ehangu'r Siarter Iaith a Chymraeg Cŵl Conwy, yn ysgolion Cat 1 2 a 3 a chyflwyno'r Siarter Iaith i ysgolion Cat 4 a 5 gan ddefnyddio'r ddwy ysgol beilot (Pant y Rhedyn, Glanwydden) i arwain.
- Cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol trwy fapio anghenion ar y cyd a gwasanaethau ieuencid a rhanddeiliaid allweddol i gynyddu cyfleoedd.

Datganiad cefnogol

- Amcan Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE yw sicrhau bod gan pob disgybl ym mhob ysgol o fewn y rhanbarth y sgiliau iaith a rhif maent eu hangen i lwyddo ar hyd eu taith trwy'r ysgol, ac i ennill y cymwysterau fydd yn eu galluogi i chwarae eu rhan yn llawn mewn byd gwaith a chymdeithas wedi hynny.
- Fedi 2015 mae GwE wedi bod yn gweithredu trefn ddiwygiedig o gefnogi a herio ysgolion. Mae'r drefn ar gyfer ysgolion categori cefnogaeth gwyrdd (a'r rhai cadarnaf o blith yr ysgolion categori cefnogaeth melyn) wedi'i sefydlu ar yr egwyddor o roi mwy o annibyniaeth i'n hysgolion gorau ac i hyrwyddo dull gweithredu arfarnu cymheiriaid. Mae'r model, felly, yn bartneriaeth rhwng cydweithwyr ble rhoddir cyfle i ysgolion sy'n perfformio'n uchel, ar y cyd â GwE, i herio a chefnogi ysgolion eraill sy'n perfformio'n uchel er mwyn lledaenu a rhannu rhagoriaeth. Fel canlyniad i sefydlu'r model diwygiedig, mae gan y gwasanaeth rhanbarthol gynhwysedd ychwanegol i ddwysau'r gynhaliaeth a'r gefnogaeth i'r ysgolion hynny sydd yn y categori cefnogaeth melyngoch neu goch. Defnyddir yr ymwneud ag ysgolion hefyd i adnabod arferion rhagorol/da ar lefel leol a ranbarthol.
- Tîm Ymgynghorol Y Gymraeg Sirol yn:
Cefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm 2015 a'r Cwricwlwm Ail iaith 2008 gan sicrhau ymweliadau a chynnig cefnogaeth yn unol â blaenoriathau Cynllun Gweithredu, rhaglen hyfforddiant sy'n targedu yn ol gofynion penodol.
- Mae GwE a Thîm Ymgynhorol y Gymraeg ar y cyd yn targedu ac yn gweithredu gyda lleiafrif o ysgolion ble mae pryder am berfformiad y Gymraeg a Chymraeg ail iaith. Casglu data a thargedau Cymraeg ail iaith yn Sirol. GwE yn adnabod ysgolion arweiniol Cymraeg ail iaith.

- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn cydweithio'n agos a CYDAG. Bwriedir ymaelodi pob ysgol gyda CYDAG er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth gyfredol, rannu arfer dda ac uwch sgilio'r gweithlu.
- Cynyddu'r canrannau sy'n cyrraedd y DPC er mwyn i berfformaid Conwy gyrraedd safle disgwylidig 'Cinio am ddim'.
- Hyrwyddo'r cynlluniau trochi er mwyn cynyddu niferoedd sy'n dilyn rhaglen iaith gyntaf Bl.7 yn Ysgolion Dyffryn Conwy a'r Creuddyn. Parhau â'r ddarpariaeth Canolfan Hwyrddyfodiaid a chefnogaeth i'r ysgolion trawsnewidiol.
- Cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd parthed cymedroli Cymraeg.
- Paratoi Rhaglen hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr a fydd yn egluro targedau y Strataegaeth, er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau parthed y Gymraeg.
- Paratoi llenyddiaeth ar gyfer rhieni sy'n hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd.
- Er y byddwn yn parhau a dyheadau y Llywodraeth parthed y Siarter Iaith, byddwn yn ehangu'r Siarter Iaith i'r Cyfnod Sylfaen ac yn lledaenu'r prosiect Cymraeg Cwl Conwy i ysgolion Categori 4 a 5.
Mae elfen gryf o hyfforddi yn dod yn sgil yr ymweliadau achredu a chyfle i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng ysgolion a'i gilydd.
Cwblheir adroddiad ar gyrhaeddiad a datblygiad pob ysgol yn erbyn gofynion y gwobrau efydd, arian ac aur yn flynyddol.
Mae'r broses achredu'n digwydd ar ddiwedd y flwyddyn addysgol. Mae data'r gwe iaith yn fodd o brofi bod effaith cadarnhaol o ganlyniad i weithredu'r Siarter Iaith.
- Cynyddu'r nifer o staff sy'n mynychu'r Cwrs Sabothol, drwy dargedu ysgolion unigol. (Sir/ GwE/ Llywodraethwyr)
- Parhau i hyrwyddo'r pedwar cwrs preswyl yng Nglan Llyn sydd yn gymorth i gynyddu'r defnydd o Gymraeg anffurfiol ymhlith disgyblion y Sir. Parhau hefyd i drefnu y bedair sesiwn 'Jambori' flynyddol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Comisiynu llysgennad i gydlynu, hyrwyddo ac i fesur llwyddiant y Strategaeth.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg

Dyma ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn:

- Sicrhau darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar hyd y continiwm ADY.
- Ymgrych recriwtio staff dwyieithog ar draws y Sir a datblygu rhaglen DPP priodol ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ADY mewn ysgolion.
- Cynllunio ar gyfer y ddeddfwriaeth ADY o safbwynt y Gymraeg.
- Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ar Gymraeg yn iaith gyntaf yn Ysgol y Gogarth.

Datganiad cefnogol

Ein hamcanion i gyflawni'r deilliant hwn

- Pan fo swyddi gwag yn codi, parhau i hysbysebu am staff sydd ar gallu i gyfathrebu a chefnogi trwy'r Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau cefnogaeth ddwyieithog addas yn ganolog, yn yr ysgolion, ac yn yr unedau amrywiol.
- Sicrhau mynediad i'r cwrs Sabothol ar gyfer staff.
- Mae cefnogaeth ar gael yn y Gymraeg/ dwyieithog ar gyfer y rhieni, ac mae pob gohebiaeth a anfonir allan iddynt yn ddwyieithog. Os bydd rhieni yn ymateb yn y Gymraeg, cânt ymateb yn ddwyieithog.
- Mae Conwy yn ymroddedig i barhau i gefnogi plant sydd ag AAY i dderbyn Addysg drwy'r Gymraeg ar hyd y Continwfm Addysg, yn yr ysgol arbennig, yr unedau ac yn yr ysgolion prif lif cynradd ac uwchradd, os mai dyma yw'r dymuniad.
- Mae gan y Sir ddarpariaeth ddwyieithog addas ar gyfer cefnogi amrediad eang o anghenion AAY.
- Byddwn yn gwâdd aelod o'r tîm AAY Sirol a chynrychiolydd Ysgol y Gogarth i fod yn aelodau o Fforwm Strategol y Gymraeg er mwyn sicrhau ateb anghenion/ rhannu a lledaenu gwybodaeth.
- Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn cefnogi Ysgol y Gogarth ac Unedau AAY o ran datblygu dwyieithrwydd.
- Parhau i gefnogi cynllun cyfeirio cyn ysgol i gyflawni anghenion plant a rhieni o fewn lleoliadau nas gynhelir a sicrhau ymyrraeth cynnar.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Ein pedwar prif amcan i gyflawni'r deilliant hwn :

- Tynhau polisi y Sir pan yn hysbysebu gan ddatgan ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr fedru cyfathrebu yn ddwyieithog a recriwtio staff dwyieithog pan fo swydd wag yn codi
- Datblygu/ Uwchsgilio sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Hybu'r defnydd o gynllun Sabothol yn yr ysgolion, er mwyn sicrhau datblygiad ieithyddol.
- Mae'r darpariaeth ar gyfer cymhorthyddion a staff cefnogol/ gweinyddol ysgolion yn allweddol er mwyn gallu symud ysgol yn eu blaen drwy'r Gymraeg.

Datganiad cefnogol

- Ail edrych ar y Polisi iaith a thrwy hynny cryfhau y disgwyliadau o ran gallu staff i gyfathrebu yn y Gymraeg.
- Sicrhau bod pob hysbyseb yn cyfeirio at yr angen i fod yn ddwyieithog ac os nad yw'r person llwyddiannus yn medru siarad Cymraeg, sicrhau hyfforddiant addas ar ei ch/gyfer.
- Hybu a chefnogi staff i fynyachu hyfforddiant yn y Gymraeg ac i uwch sgilio.
- Sicrhau cyfleoedd i staff ymarfer eu sgiliau yn y Gymraeg.
- Cydweithio gyda a hyrwyddo Cynllun Cam wrth Gam Mudiad Meithrin i sicrhau cymwysterau perthnasol cyfrwng Cymraeg i weithlu y blynyddoedd cynnar.

- Hyfforddi Llywodraethwyr a chynghorwyr ar bwysigrwydd a manteision dwyieithrwydd ynghyd â sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Pwysleisio hefyd pwysigrwydd o annog a chefnogi staff i fynychu cyrsiau uwch sgilio/ sabothol. Cydweithio yn agos â Phrifysgol Bangor fel bo staff yn medru mynychu cyrsiau cyfagos.
- Staff yn derbyn cefnogaeth gan Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg, i'w uwch-sgilio er mwyn medru defnyddio'r iaith Gymraeg ar lawr y dosbarth gyda'r disgyblion, yn weinyddol, yn gymdeithasol yn yr ysgol a thu hwnt.
- Cydweithio â Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd trawsawdurdod a Llywodraeth Cymru, i ddylanwadu ar arferion/ anghenion ieithyddol y Sir, ac i wthio ymlaen strategaethau/ cynlluniau diweddaraf a disgwyliadau Llywodraeth Cymru.
- Hysbysu staff o gyrsiau datblygu a gloywi iaith gyntaf ac ail iaith.
- Cydweithio â GWE i fonitro y defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion ar draws y Sir.

Llofnodwyd:..... Dyddiad:

Dr Lowri Brown

Pennaeth Gwasanaethau Addysg Dros Dro (Prif Swyddog Addysg)